Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council



# Polisi Lwfansau Llywodraethwyr

| Cymeradwywyd y Polisi gan | Dyddiad Cymeradwyo | Perchennog y Polisi | Adolygu |
|---|---|---|---|
| CSDd JMT | 11/12/2024 | Addysg CSDd | Fel pob dogfen ar y fewnrwyd, mae'r polisi hwn yn destun adolygiad rheolaidd oherwydd newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi. |

| Rhif y Fersiwn | Dyddiad Cymeradwyo | Cymeradwywyd gan | Newid |
|---|---|---|---|
| f1.0 | 11/12/2024 | CSDd JMT | Adolygwyd y polisi yn unol â deddfwriaeth a chymeradwywyd Templed Addysg newydd ar gyfer ysgolion CSDd. |
| | | | |
| | | | |

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2019

## CYFLWYNIAD

Datblygwyd y polisi yn unol â Rheoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005. Mae'r rheoliadau hyn yn rhoi disgresiwn i Gyrff Llywodraethu dalu lwfansau o gyllideb flynyddol yr ysgol i lywodraethwyr am gostau maent yn eu hysgwyddo wrth wneud eu dyletswyddau.

Mae'n bwysig fod trefniadau ar waith i dalu costau a ysgwyddir gan lywodraethwyr mewn categorïau penodol a amlinellir isod. Mae hyn yn sicrhau cyfle cyfartal i bob llywodraethwr wasanaethu yn y rôl hon.

Mae'r corff llywodraethu'n cytuno i dalu costau teithio a threuliau ar gyfradd nad yw'n uwch na'r hyn a nodwyd gan Lywodraeth Cymru mewn rheoliadau a wnaed dan adran 100 Deddf Llywodraeth Leol 2000. (Dyma'r cyfraddau a ddefnyddir i ad-dalu treuliau i aelodau etholedig awdurdodau lleol yng Nghymru). Y gyfradd bresennol yw xxc y filltir.

## Bydd gan bob llywodraethwr ysgol hawl i wneud cais am y costau gwirioneddol a ysgwyddwyd ganddynt i gyflawni eu dyletswyddau fel llywodraethwr (mynychu cyfarfodydd corff llywodraethu a chyfarfodydd pwyllgor fel a ganlyn:

Bydd y llywodraethwyr yn gallu hawlio am y canlynol, ar sail pob achos unigol:

- Costau gofal plant neu warchod (ac eithrio taliadau i briod/partner presennol/blaenorol);
- Trefniadau gofal i berthynas oedrannus neu ddibynnol (ac eithrio taliadau i briod/partner presennol/blaenorol)
- Costau ychwanegol a ysgwyddir ganddynt i gyflawni eu dyletswyddau yn sgil anabledd;
- Costau mewn cysylltiad â theithio i gyfarfodydd ar y gyfradd bresennol o 45c y filltir;
- Costau galwadau ffôn, llungopïo, deunydd ysgrifennu, postio ayyb.
- Unrhyw lwfansau eraill y gellir eu cyfiawnhau.

2. Ni all llywodraethwyr dderbyn lwfansau presenoldeb nag ad-daliad am golli enillion.

Dylai llywodraethwyr sy'n dymuno hawlio costau lenwi ffurflen hawlio (ar gael gan y Clerc neu'r Gwasanaethau Llywodraethwyr) a'i dychwelyd i'r ysgol ynghyd â derbynebau TAW lle bo modd (e.e. tanwydd, deunydd ysgrifennu, ffôn) o fewn pedair wythnos o'r dyddiad yr ysgwyddwyd y costau, bydd y rhain yn cael eu cyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth gan Gadeirydd y Llywodraethwyr (neu'r Is-gadeirydd ar gyfer hawliadau'r Cadeirydd).

Bydd y Pwyllgor Cyllid yn derbyn manylion pob hawliad at ddibenion archwilio. Mae'n bosibl y bydd y pwyllgor cyllid yn ymholi am unrhyw hawliadau sy'n ymddangos yn ormodol neu'n anghyson, a gallant orchymyn bod rhan o hawliad neu hawliad cyfan yn cael ei ad-dalu.

| | |
|---|---|
| **Crëwyd ar** | 1.9.2025 |
| **Diweddarwyd ddiwethaf ar** | |
| **Mabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethu Llawn ar** | |
| **Dyddiad adolygu a drefnwyd** | |
| **Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr a dyddiad** | |

## HAWLIAD AELODAU CYRFF LLYWODRAETHU AM DREULIAU / LWFANSAU

Enw: ………………………………………………………………………………………

Cyfeiriad: ……………………………………………………………………………………

| Costau teithio | | | £ | c |
|---|---|---|---|---|
| Dyddiad | Disgrifiad | Milltiroedd | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| Costau gofal plant / gwarchod | | | | |
| Trefniadau gofal i berthynas oedrannus neu ddibynnol | | | | |
| Cefnogaeth ar gyfer llywodraethwyr ag anabledd | | | | |
| Costau ffôn | | | | |
| Postio | | | | |
| Llungopïo | | | | |
| Deunyddiau ysgrifennu | | | | |
| Arall (nodwch) | | | | |
| CYFANSWM Y COSTAU A HAWLIR | | | | |

Rwyf i, ………………………………….., yn hawlio'r lwfansau uchod, fel llywodraethwr Corff Llywodraethu Ysgol Pant Pastynog Llofnod………………………………..

Presenoldeb wedi'i gadarnhau (Pennaeth)…………….........…… Cyfanswm wedi'i wirio …………………

Cod Cyllideb yr Ysgol:

Cymeradwyaeth ar gyfer talu (Cadeirydd Llywodraethwyr)…………...............………

Ardystiwyd………………

Atgoffir ysgolion mai eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau fod unrhyw elfen TAW wedi'i chodio ar wahân. Bydd hyn yn sicrhau fod yr awdurdod yn gallu adennill yr elfen TAW ac arbed arian yng nghyllideb yr ysgol.